

CYNGOR BRO LLANLLWNI
ADRODDIAD CYFARFODYDD MIS MEHEFIN 2022

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Eglwys Llanllwni, nos Lun 27 Mehefin 2022 am 8yh. Cyflwynwyd mantolen am y flwyddyn Ebrill 2021 – Mawrth 2022, a chytunwyd gan y cynghorwyr bod y cyfrifon yn gywir. Llofnodwyd y ffurflenni priodol sef “Rheolau Sefydlog”, “Côd Ymddygiad” a “Rheloau Ariannol” gan y Cadeirydd. Cyflwynodd y Clerc fantolen am y cyfnod Ebrill 2022 – Mehefin 2022. Nid oedd aelod o’r cyhoedd yn bresennol.

Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i’r cyfarfod yn ogystal â’r cynghorwyr newydd sef Paul Jones â Hefin Jones. Llongyfarchwyd Linda Evans ar gael ei hethol yn Ddirprwy Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae cynghorwyr Cyngor Bro Llanllwni yn ymfalchïo yn ei llwyddiant a dymunwyd yn dda iddi yn y swydd newydd. Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwennan Lloyd Owen (merch y Clerc) ar ei llwyddiant yn ennill y wobwr gyntaf ar Unawd blwyddyn 5 a 6, a’r ail wobwr ar yr Unawd Telyn blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Dinbych, ddiwedd mis Mai.

PLISMONA

Nid oedd heddwas yn bresennol.

ETHOL SWYDDOGION

Etholwyd y swyddogion canlynol am y cyfnod Mai 2022 - Mai 2024:
Cadeirydd: Eurig Thomas; Is-gadeirydd :Andrew Thomas .
Penderfynwyd y byddai Dewi Thomas yn cadeirio gweddill y cyfarfod hwn.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2022.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a’r adnoddau wedi’u harchwilio’n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i’w cofnodi ar y cae chwarae. Ers y Roedd angen sylw ar un o’r adnoddau. Penderfynwyd y byddai Eric Davies â Hefin Jones yn archwilio’r mater cyn y diwrnod hwyl ar ddydd Sul 3ydd o Orffennaf. Roedd y cynghorwyr wedi cytuno cynorthwyo yn ystod y diwrnod hwyl. Penderfynwyd trafod datblygu’r cae chwarae yn ystod cyfarfod nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI

Penderfynwyd yn unfrydol y byddai Clive Jones yn gyfrifol am ddatblygu’r wefan. Nodwyd hefyd mai Gwefan Cyngor Bro Llanllwni fyddai’r wefan o hyn ymlaen.

DIFFIBRILYDD

Roedd y Clerc wedi danfon cais i Gronfa Fferm Wynt Brechfa, ac wedi derbyn cadarnhad y byddai’r arian ar gaelyn ystod yr wythnosau nesaf a bod hyfforddiant yn cael ei gynnig.

DATHLIADAU’R FRENHINES

Byddai pob plentyn o oed cynradd yn y pentref yn derbyn cwpan fel rhan o ddatliadau’r Frenhines.

ETHOLIAD 2022:

Penderfynwyd danfon llythyron o ddiolch am eu gwaith, eu hymroddiad a'u brwdfrydedd dros y plwyf i'r cynghorwyr a oedd wedi gadael eu swyddi wedi etholiad Mai 2022 sef Dewi Davies, Tommy Davies, Emrys Evans â Meinir Evans.

LLYWODRAETHWYR YSGOL LLANLLWNI:

Roedd angen cynrychiolydd o Gyngor Bro Llanllwni ar Fwrdd y Llywodraethwyr. Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Daeth y cyfarfod i ben am 10.00yh.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 11 Gorffennaf am 8.00yh.